OFFICE OF FAIR TRADING

Deg cyngor doeth am gredyd

Cadwch eich dyled dan reolaeth



Os ydych chi'n defnyddio cerdyn credyd, yn cael credyd yn y fan a'r lle mewn siop, yn siopa o gatalog, yn defnyddio cerdyn siop – yn y bôn, cael benthyg arian ydych chi. Os ydych chi'n bwriadu defnyddio credyd, fe all y deg cyngor isod eich helpu chi i fenthyca'n ddiogel.

Paratowch eich hun

1.Allwch chi ei fforddio? Cyn clymu'ch hun, gwnewch yn siŵr eich bod wir yn gallu fforddio'r ad-daliadau – peidiwch â chael eich perswadio i gael benthyg mwy nag sydd ei eisiau arnoch chi.

2.Holwch mewn sawl lle am gredyd. Mae'n bosibl nad y peth cyntaf a gynigir i chi fydd y fargen orau. Mae sawl math o gredyd a nifer o wahanol gyfraddau ar gael ar gyfer benthyciadau banc, cardiau credyd, cytundebau hur bwrcas ac yn y blaen. Peidiwch â thalu mwy nag sydd raid.

3.Darllenwch y ffurflenni cyn i chi eu llofnodi. Os nad ydych chi'n eu deall nhw, mynnwch help gan eich swyddfa safonau masnach (Trading Standards) neu'ch canolfan Cyngor ar Bopeth. Unwaith i chi lofnodi, chewch chi ddim newid eich meddwl – oni bai eich bod yn llofnodi gartref neu mewn adeilad arall nad yw'n adeilad busnes.

Faint gostith e?

4.Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod faint fyddwch chi'n gorfod talu nôl gan gynnwys y llog a'r costau. Ydy e'n cynnig gwerth am arian?

5.Cymharwch yr APRs. Dyma'r ffordd hawsaf o gymharu un math o gredyd ag un tebyg arall. Felly, os ydych chi'n edrych ar gardiau credyd, er enghraifft, dewiswch yr un gyda'r APR isaf. Fel arfer, isaf fydd yr APR, lleiaf fyddwch chi'n ei dalu mewn llog. Weithiau, dim ond am gyfnod byr y byddan nhw'n cynnig APR isel.

6.Gochelwch rhag taliadau eraill, er enghraifft, ffi i frocer neu ffi trefnu.

7.Edrychwch ar hyd y benthyciad, nid dim ond ar y taliad misol. Hwyaf fydd cyfnod y benthyciad, mwyaf fydd y llog i'w dalu nôl.

8.Gochelwch rhag opsiynau ychwanegol. Weithiau, fe fyddan nhw'n cynnwys yswiriant diogelu taliadau heb i chi ofyn am hynny. Does dim rhaid i chi dderbyn yswiriant fel hyn ac os ydych chi'n hunan-gyflogedig neu ar gontract cyfnod—byr, mae'n bosibl na fydd yr yswiriant yn eich gwarchod beth bynnag.

Cofiwch

9. Fe allech chi golli'ch cartref os byddwch chi'n ei ddefnyddio i sicrhau benthyciad ac yn methu â thalu'r ad-daliadau'n rheolaidd.

10.Os byddwch chi'n gwarantu benthyciad rhywun arall a'u bod nhw'n methu â thalu'r ad-daliadau, chi fydd yn gorfod talu'r ddyled.

Defnyddiwch y tabl hwn i weld faint fyddwch chi'n ei dalu mewn gwirionedd (at y bunt agosaf) pan fyddwch chi'n codi credyd ac yn talu'r arian yn ôl mewn rhandaliadau misol cyfartal. Mae'r APR ar yr ochr chwith. Dilynwch y rhes ar draws nes cyrraedd colofn nifer blynyddoedd y benthyciad. Er enghraifft, os byddwch chi'n cael benthyg £1000 ar APR o 25% am 5 mlynedd, byddwch chi'n talu nôl £1675 (sef £675 o log ychwanegol)

ar fenthyciad o £1000

APR	HYD CYFNOD Y BENTHYCIAD					
	1 flwyddyn	3 blynedd	5 mlynedd	10 mlynedd	15 mlynedd	20 mlynedd
5%	£1,027	£1,077	£1,129	£1,266	£1,413	£1,569
10%	£1,053	£1,154	£1,262	£1,557	£1,887	£2,248
15%	£1,078	£1,231	£1,398	£1,867	£2,404	£2,995
20%	£1,102	£1,308	£1,536	£2,191	£2,947	£3,773
25%	£1,126	£1,385	£1,675	£2,523	£3,502	£4,557
30%	£1,149	£1,461	£1,815	£2,860	£4,058	£5,333

Y Gyfradd Ganrannol Flynyddol (APR) yw cyfanswm y tâl a godir am gredyd ar gyfer pob blwyddyn o gytundeb credyd.

- Consumer tips
- Consumer knowhow
- Consumer credit

www.oft.gov.uk
ffôn 08457 22 44 99